The Learn Welsh Level Checker

Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg

Cwestiynau Cyffredinol	General Questions
Sut dw i'n cofrestru i ddefnyddio'r Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg?	**How do I register to use the Learn Welsh Level Checker?**
Bydd angen i chi gofrestru ar wefan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddefnyddio'r Gwiriwr. Os ydych wedi cofrestru eisoes, nid oed angen i chi gofrestru eto. Dim ond y rheiny sydd â dolen i'r Gwiriwr sydd â mynediad i'w ddefnyddio ar hyn o bryd. Bydd y Gwiriwr ar gael yn fwy eang yn ystod 2019.	You will need to register on The National Centre for Learning Welsh's Site to use the Checker. If you've already registered, you don't need to register again. Currently, only those with a direct link to the Checker have access to use it. The Checker will be available more extensively during 2019.
Pwy sy'n cael defnyddio'r Gwiriwr Lefel?	**Who can use the Level Checker?**
Gall unrhyw un sy'n derbyn dolen uniongyrchol i'r Gwiriwr ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr sy'n ymuno â chyrsiau Cymraeg Gwaith yn defnyddio'r Gwiriwr, yn ogystal â rhai cyflogwyr. Trwy eich gweithle fyddwch chi'n derbyn y ddolen i'r Gwiriwr, ac mae'n rhaid i'r cyflogwr fod wedi cofrestru gyda ni cyn i hyn ddigwydd.	Anyone who receives a direct link to the Checker can use it. Currently, all learners who join Work Welsh courses use the Level Checker, as well as some employers. You'll receive the link through your workplace, and your employer must be registered with us for this to be available.
Nid yw'r Gwiriwr yn llwytho'n iawn. Beth alla i wneud?	**The Checker isn't loading properly. What can I do?**
Mae'r Gwiriwr Lefel yn gweithio'n dda gyda phorwr Google Chrome. Os ydych yn defnyddio Internet Explorer neu Microsoft Edge ac yn cael problemau, ceisiwch ddefnyddio porwr gwahanol. Cofiwch y gallwch ddefnyddio'r Gwiriwr gyda nifer o declynnau clyfar (ffôn symudol, tabled ayyb) – does dim rhaid defnyddio cyfrifiadur.	The Level Checker works well with the Google Chrome browser. If you're using Internet Explorer or Microsoft Edge and having trouble, try using a different browser. Remember that you can use the Checker on many smart devices (mobile phone, tablet etc.) – you don't need to use a computer.
Oes angen i mi gwblhau'r holl adrannau ar unwaith?	**Do I need to complete all sections at once?**
Nac oes. Gallwch fewngofnodi ar unrhyw adeg i gwblhau'r adrannau gwahanol. Gallwch hefyd adael adran heb ei chwblhau, a bydd y Gwiriwr yn cofio'n union lle byddwch wedi cyrraedd, a gallwch barhau gyda'r adran honno ar unrhyw adeg pan ddychwelwch.	No. You can login at any time to complete all sections. You can also leave a section unfinished, and the Checker will remember exactly where you've reached, so you can then proceed to complete that section at any time when you return.
Nid yw'r sain yn gweithio, neu, does dim cyfleusterau sain gen i. Beth alla i wneud?	**The audio doesn't work, or, I don't have audio facilities. What can I do?**
Os oes cyfleusterau sain gennych chi, gwiriwch eich gosodiadau, a cheisiwch eto. Os nad oes seinyddion gennych chi ar eich cyfrifiadur, gallwch ddefnyddio'r Gwiriwr ar declynnau	If you have audio facilities, please check your settings, and try again. If you don't have speakers on your computer, you can use the Checker on any device, e.g. your smart phone

eraill, e.e. eich ffôn symudol neu dabled; neu gallwch ddefnyddio cyfrifiadur rhywun arall neu un eich llyfrgell leol.	or tablet; or you can use someone else's computer or one at your local library.
Mae'r cwestiynau yn rhy anodd i mi eu hateb.	**The questions are too difficult for me to answer.**
Noder bod yr adrannau Darllen a Gwrando yn ymatebol. Mae hyn yn golygu bod y teclyn yn cyfrifo'ch lefelau wrth i chi weithio drwy'r adrannau. Os ydych yn ateb yn gywir, bydd y teclyn yn rhoi cwestiwn anos i chi; os ydych yn ateb yn anghywir, cewch gwestiwn haws. Er mwyn i hyn fod yn effeithlon, mae'n bosib y bydd y cwestiynau cyntaf yn fwy anodd na'r rhai dilynol. Mae'n bwysig eich bod yn clicio ar 'Nesaf' i gwblhau pob adran hyd yn oed os na allwch ateb pob cwestiwn.	Please note that the Reading and Listening sections are adaptive. This means that the tool will calculate your levels as you progress through the sections. If you answer a question correctly, it will give you a more difficult question; if you answer incorrectly, it will give you an easier question. For this to be efficient, the first few questions may be more difficult than the following ones. It is important that you click on the 'Next' button to complete each section even if you cannot answer every question.
Sut dw i'n gweld fy nghanlyniadau?	**How do I see my results?**
Bydd canlyniad pob adran yn ymddangos ar eich bwrdd gwaith o fewn tudalen y Gwiriwr (cofiwch fod angen i chi fewngofnodi i weld eich bwrdd gwaith). Bydd eich canlyniad Darllen a Gwrando i'w gweld yn syth wedi i chi gwblhau'r adrannau hynny. Gan fod angen asesu'r adrannau Ysgrifennu a Siarad yn gorfforol, bydd y canlyniadau hynny i'w gweld ar eich bwrdd gwaith yn ddiweddarach.	Each section result will be displayed on your dashboard within the Checker page (remember, you must be signed in to see your dashboard). Your Reading and Listening results will be displayed on your dashboard immediately after completing these sections. As the Writing and Speaking sections need to by physically assessed, your results will appear on your dashboard later.
Cyflogwr ydw i. Sut dw i'n gweld canlyniadau y gweithlu?	**I'm an employer. How do I see my workforce's result?**
Gallwch gysylltu gyda'r Ganolfan i dderbyn yr adroddiad hwn. Mae'r staff wedi cytuno i'r canlyniadau gael eu rhannu gyda'u cyflogwr wrth gofrestru i ddefnyddio'r Gwiriwr.	You can contact the Centre to receive this report. The staff will have agreed to their results being shared with their employer when registering to use the Checker.
Dw i wedi datblygu fy sgiliau Cymraeg ers i mi ddefnyddio'r Gwiriwr. Ga i ddefnyddio'r Gwiriwr eto i wirio fy lefel gyfredol?	**I've developed my Welsh language skills since using the Checker. Can I use the Checker again to check my current level?**
Rhaid aros 3 mis cyn ail-ddefnyddio'r Gwiriwr. Bydd unrhyw ganlyniadau blaenorol yn cael eu cadw ar eich bwrdd gwaith hefyd.	You must wait 3 months before re-using the Checker. Any previous results will be displayed on your dashboard.
Cwestiwn Pellach? Cysylltwch:	**Further questions? Contact:**
gwiriwr@dysgucymraeg.cymru	

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh